

Arolwg Trigolion Gwynedd 2024



Wedi ei ariannu gan
Llywodraeth y DU

Funded by
UK Government

Cynnwys yr Adroddiad

Cyflwyniad	3
Canlyniadau	4
1. Nodweddion yr Ymatebwyr	4
1.1 Niferoedd	4
1.2 Cymunedau	4
1.3 Llety i ymwelwyr	5
1.4 Gweithio yn y diwydiant twristiaeth	5
1.5 Proffesiwn	6
2. Effaith Twristiaeth	7
2.1 Barn Gyffredinol	7
2.2 Dylanwad Twristiaeth	8
2.3 Canlyniadau Negyddol	9
2.4 Agwedd at Dwristiaeth	10
2.5 Iaith Gymraeg	11
2.6 Math o Ymwelwyr	12
2.7 Llety Cyfnod Byr	14
3. Digwyddiadau	16
4. Safleoedd Arosfan (Aires)	17
5. Safleoedd Treftadaeth	19
Casgliadau	20
Atodiad A – Holiadur Trigolion	22
Atodiad B – Map o’r 13 Ardal Adfywio yng Ngwynedd	36
Atodiad C – Nodweddion Cydraddoldeb yr ymatebwyr	37
Atodiad D – Dylanwad Twristiaeth	38
Atodiad E – Effaith digwyddiadau ar gymunedau lleol	44

Rhestr Tablau

Tabl 1 : Nifer ymatebion fesul Ardal Adfywio yng Ngwynedd	4
Tabl 2 : Twristiaid yn ymweld a'u cymuned hwy	5
Tabl 3 : Darparu llety i ymwelwyr	5
Tabl 4 : Canran or teulu yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth	5
Tabl 5 : Proffesiwn yr ymatebwyr	6
Tabl 6 : Effaith twristiaeth fesul ardal adfywio	8
Tabl 7 : Ydy twristiaeth yn achosi canlyniadau negyddol yn eich cymuned chi?	9
Tabl 8: Oes Arosfan yn eich cymuned?	17
Tabl 9: Effaith Arosfan ar wersylla gwyllt.....	17
Tabl 10: Ydi gwersylla gwyllt yn broblem yn eich cymuned?	18
Tabl 11 : Pan yn ystyried eich cymuned, ydych chi'n credu fod y Safle Treftadaeth y Byd wedi:	19
Tabl 12 : Heriau mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn achosi	19

Rhestr Ffigyrau

Ffigwr 1 : Effaith twristiaeth ar gymunedau	7
Ffigwr 2 : Dylanwad twristiaeth	8
Ffigwr 3 : Canlyniadau negyddol.....	10
Ffigwr 4 : Agwedd at dwristiaeth	11
Ffigwr 5 : Effaith twristiaeth ar yr iaith Gymraeg	12
Ffigwr 6 : Ymwelwyr o Gymru	12
Ffigwr 7 : Ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig (tu allan i Gymru).....	13
Ffigwr 8 : Ymwelwyr Rhyngwladol (tu allan i'r DU).....	13
Ffigwr 9 : Ymwelwyr Undydd	13
Ffigwr 10 : Ymwelwyr Dros Nos	14
Ffigwr 11 : Llety Cyfnod Byr	15
Ffigwr 12: Beth yw canlyniadau cynnal digwyddiadau yn eich cymuned?	16

Cyflwyniad

Mae twristiaeth yn chwarae rhan allweddol yn economi, diwylliant a bywyd bob dydd Gwynedd.

Mae deall safbwyntiau cymunedau lleol yn hanfodol i sicrhau bod twristiaeth yn datblygu mewn ffordd sy'n fuddiol i drigolion tra'n mynd i'r afael ag unrhyw heriau posibl.

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Arolwg Twristiaeth Trigolion Gwynedd 2024. Lluniwyd y cwestiynau i ddilyn fformat arolwg ymchwil peilot i gasglu barn trigolion wnaethpwyd gan Croeso Cymru yn 2023 mewn tair ardal o Gymru oedd yn cynnwys Gwynedd. Nod yr arolwg oedd casglu mewnwelediadau i effaith twristiaeth ar gymunedau, gan gynnwys y manteision a'r heriau, er mwyn nodi blaenoriaethau a phryderon lleol. Sylfaenwyd y cwestiynau ar fformat tebyg i holiadur 2023 gan ddefnyddio techneg TRAVELSAT o ran model indecs i farn trigolion (RSI). Techneg sydd yn anelu i asesu holl agweddau sydd yn bwysig i drigolion pan yn ystyried eu cymuned hwy.

Bydd y canlyniadau'n helpu i lunio polisiau twristiaeth yn y dyfodol sy'n adlewyrchu anghenion trigolion Gwynedd.

Cynhaliwyd yr arolwg yn electronig trwy LimeSurvey ar wefan Cyngor Gwynedd rhwng Medi 2024 a chanol Tachwedd 2024. Cafodd ei hyrwyddo drwy:

- Anfon gwahoddiad electronig i gwblhau'r arolwg at dderbynwyr Bwletin Busnes Gwynedd;
- Amlygwyd ym mwletinau Cyngor Gwynedd
- Cylchredwyd datganiadau i'r wasg a thrwy gyfrifon cymdeithasol a gwefan Cyngor Gwynedd
- Dosbarthwyd copïau papur or holiadur trwy rhwydwaith Llyfrgelloedd y sir

Bu i 1,506 o drigolion Gwynedd ymateb i'r arolwg.

Gweler copi o'r holiadur yn **Atodiad A**

Mae'r adroddiad hwn wedi ei gynhyrchu ar ran y Gwasanaeth Cefnogi Busnes, Adran Economi a Chymuned gan y Gwasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth, Cyngor Gwynedd.

Canlyniadau

1. Nodweddion yr Ymatebwyr

1.1 Niferoedd

Cafwyd 1,506 ymateb i'r arolwg. O ran niferoedd fesul ardal roedd y ganran uchaf o'r ymatebwyr yn dod o ardal Pen Llŷn (22.8%) a'r nifer lleiaf o ymatebion gan drigolion Bro Ogwen (1.6%). Gweler map o'r ardaloedd yn **Atodiad B**.

Tabl 1 : Nifer ymatebion fesul Ardal Adfywio yng Ngwynedd

Ardal	Nifer	Fel %
Pen Llŷn	343	22.8%
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	203	13.5%
Bro Ardudwy	199	13.2%
Bro Dysynni	190	12.6%
Dalgylch Pwllheli	183	12.2%
Bro Peris	75	5.0%
Dalgylch Dolgellau	68	4.5%
Bro Lleu / Nantlle	62	4.1%
Dalgylch Caernarfon	52	3.5%
Bro Ffestiniog	45	3.0%
Dalgylch Bala / Penllyn	32	2.1%
Dalgylch Bangor	30	2.0%
Bro Ogwen	24	1.6%
Cyfanswm	1,506	100.0%

O'r niferoedd yma roedd **415 (27.5%)** ohonynt yn byw o fewn ffiniau **Parc Cenedlaethol Eryri, 191 (12.7%)** yn byw o fewn ffiniau **Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn** a **109 (7.2%)** yn byw o fewn ffiniau **Ardaloedd Llechi Gwynedd**.

1.2 Cymunedau

Holwyd y trigolion ers sawl blwyddyn roeddynt wedi byw yn eu cymuned, ac roedd 62.5% wedi bod yn byw dros 15 mlynedd yn eu cymuned. Dim ond 1.3% o'r ymatebwyr oedd wedi byw yn eu cymuned am lai na blwyddyn. Roedd 17.5% wedi byw yn eu cymuned am rhwng 1 a 6 mlynedd gyda 18.4% wedi byw rhwng 7 a 15 mlynedd yn eu cymuned.

Holwyd hefyd os oeddynt yn eu barn nhw yn byw mewn cymunedau mae twristiaid yn ymweld â hi a'i pheidio. Roedd 80.3% o'r holl ymatebwyr yn credu eu bod yn byw mewn cymuned ble mae twristiaid yn ymweld yn aml â hi.

Tabl 2 : Twristiaid yn ymweld a'u cymuned hwy

Sector	Nifer	Fel %
Mae twristiaid yn ymweld yn aml â hi	1,210	80.3%
Mae twristiaid yn ymweld yn weddol aml â hi	250	16.6%
Nad ydy twristiaid yn ymweld yn aml â hi	34	2.3%
Nad ydy twristiaid byth yn ymweld â hi	2	0.1%
Gwell gennyf beidio a dweud	10	0.7%
Cyfanswm	1,506	100.0%

1.3 Llety i ymwelwyr

Gofynnwyd i'r unigolion nodi os oeddynt yn rhoi llety i ymwelwyr yn eu cartref neu mewn eiddo roeddynt yn berchen arno. Roedd 53.2% o'r ymatebwyr wedi nodi y byddai well ganddynt beidio â dweud.

Tabl 3 : Darparu llety i ymwelwyr

Strwythur	Nifer	Fel %
Gwell gennyf beidio â dweud	801	53.2%
Na fyddaf, byth	499	33.1%
Byddaf, yn rheolaidd	135	9.0%
Byddaf, weithiau	71	4.7%
Cyfanswm	1,506	100.0%

1.4 Gweithio yn y diwydiant twristiaeth

Gofynnwyd iddynt os oeddynt neu aelod o'u haelwyd yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth. Yn ardal Bro Ffestiniog roedd y ganran uchaf o'r ymatebwyr wedi nodi bod aelod o'r aelwyd yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth. Ar lefel Gwynedd gyfan 38.0% oedd wedi nodi bod aelod o'r teulu yn gweithio o fewn y sector.

Tabl 4 : Canran or teulu yn gweithio yn y diwydiant twristiaeth

Ardal	Ydw / Oes	Nac ydw / Nac Oes	Gwell gennyf beidio â dweud
Bro Ffestiniog	48.9%	51.1%	0.0%
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	47.3%	52.2%	0.5%
Bro Ardudwy	42.2%	56.3%	1.5%
Bro Peris	40.0%	58.7%	1.3%
Dalgylch Dolgellau	39.7%	60.3%	0.0%
Pen Llŷn	37.3%	60.9%	1.7%
Bro Dysynni	34.7%	64.7%	0.5%
Dalgylch Caernarfon	34.6%	65.4%	0.0%
Bro Lleu / Nantlle	32.3%	66.1%	1.6%
Dalgylch Bala / Penllyn	31.3%	68.8%	0.0%
Dalgylch Pwllheli	30.6%	68.9%	0.5%
Dalgylch Bangor	30.0%	70.0%	0.0%
Bro Ogwen	29.2%	66.7%	4.2%
Gwynedd	38.0%	61.0%	1.0%

1.5 Proffesiwn

Holwyd yr ymatebwyr beth oedd eu proffesiwn. Roedd bron i draean (30.3%) ohonynt wedi nodi eu bod yn gyfarwyddwyr / rheolwyr. Dim ond 0.1% o'r ymatebwyr nododd eu bod yn ddi-waith.

Tabl 5 : Proffesiwn yr ymatebwyr

Proffesiwn	Nifer	Fel %
Cyfarwyddwr / Rheolwr	457	30.3%
Wedi ymddeol	375	24.9%
Cyflogai	357	23.7%
Llawrydd	72	4.8%
Gweithiwr llaw	49	3.3%
Academydd	23	1.5%
Partner sy'n aros gartref	22	1.5%
Myfyriwr	9	0.6%
Di-waith	2	0.1%
Gwell gennyf beidio â dweud	140	9.3%
Cyfanswm	1,506	100.0%


Gweler manylder am nodweddion cydraddoldeb yr ymatebwyr yn **Atodiad C**.

2. Effaith Twristiaeth

2.1 Barn Gyffredinol

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi yn gyffredinol os oeddynt yn credu bod twristiaeth yn cael effaith bositif, negyddol neu niwtral ar eu cymuned. Ers arolwg 2023 roedd llai o ganran yn credu bod mwy o ganlyniadau cadarnhaol na chanlyniadau negyddol erbyn arolwg 2024. Roedd llai mewn canran hefyd yn credu bod mwy o ganlyniadau negyddol na chanlyniadau cadarnhaol o'i gymharu â 2023. Roedd mwy mewn canran yn credu bod yr un faint o ganlyniadau cadarnhaol a negyddol. (Bu i 740 ymateb i'r holiadur yn 2023)

Ffigwr 1 : Effaith twristiaeth ar gymunedau



Wrth edrych ar wahanol ardaloedd mae'r patrwm ychydig yn wahanol. Mae Tabl 6 yn dangos canlyniadau 2024 ar gyfer yr ardaloedd adfywio. Dalgylch Bala/Penllyn sydd gyda'r ganran uchaf (87.5%) yn credu bod mwy o ganlyniadau cadarnhaol yn deillio o dwristiaeth yn eu cymuned nhw tra mai ardal Bro Ogwen sydd gyda'r ganran isaf (33.3%).

O ran ardaloedd penodol roedd :

- **75.9%** o'r rhai oedd yn byw o fewn ffin **Parc Cenedlaethol Eryri** yn credu bod mwy o ganlyniadau cadarnhaol na chanlyniadau negyddol;
- **84.8%** o'r rhai oedd yn byw o fewn ffin **ANHE LIŷn** yn credu bod mwy o ganlyniadau cadarnhaol na chanlyniadau negyddol;
- **61.5%** o'r rhai oedd yn byw o fewn ffin **Ardaloedd Llechi Gwynedd** yn credu bod mwy o ganlyniadau cadarnhaol na chanlyniadau negyddol


Tabl 6 : Effaith twristiaeth fesul ardal adfywio

Ardal	Mwy o ganlyniadau cadarnhaol	Mwy o ganlyniadau negyddol	Niwtral	Dim barn
Dalgylch Bala / Penllyn	87.5%	9.4%	3.1%	0.0%
Pen Llŷn	83.4%	6.4%	9.3%	0.9%
Bro Ardudwy	79.4%	8.5%	10.6%	1.5%
Bro Dysynni	76.8%	11.1%	11.6%	0.5%
Dalgylch Dolgellau	76.5%	11.8%	10.3%	1.5%
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	75.4%	11.3%	12.3%	1.0%
Dalgylch Pwllheli	72.7%	15.3%	10.9%	1.1%
Dalgylch Caernarfon	61.5%	15.4%	21.2%	1.9%
Bro Lleu / Nantlle	61.3%	19.4%	19.4%	0.0%
Bro Ffestiniog	60.0%	20.0%	20.0%	0.0%
Bro Peris	57.3%	32.0%	10.7%	0.0%
Dalgylch Bangor	50.0%	13.3%	33.3%	3.3%
Bro Ogwen	33.3%	50.0%	16.7%	0.0%
Gwynedd	74.3%	12.7%	12.1%	0.9%

2.2 Dylanwad Twristiaeth

Gofynnwyd i’r ymatebwyr, ar gyfer rhestr o agweddau nodi os ydynt yn cael dylanwad gadarnhaol, niwtral neu negyddol ar eu cymuned. Gweler canlyniadau’r ardaloedd yn **Atodiad D**.

Ffigwr 2 : Dylanwad twristiaeth



2.3 Canlyniadau Negyddol

Gofynnwyd oedd y trigolion yn credu bod twristiaeth yn achosi canlyniadau negyddol yn eu cymuned. O'r 1.506 ymatebydd, roedd 572 (38.0%) yn credu bod canlyniadau negyddol drwy gydol y flwyddyn neu rhai adegau adeg o'r flwyddyn. Roedd 10.9% yn credu bod canlyniadau negyddol trwy gydol y flwyddyn. Roedd yr ymateb yn wahanol mewn rhai ardaloedd i'w gilydd.


Tabl 7 : Ydy twristiaeth yn achosi canlyniadau negyddol yn eich cymuned chi?

Ardal	Ydy – trwy gydol y flwyddyn	Ydy – ar adegau penodol	Nac ydy	Dim barn
Bro Ogwen	37.5%	37.5%	25.0%	0.0%
Bro Peris	24.0%	38.7%	37.3%	0.0%
Dalgylch Bangor	6.7%	50.0%	43.3%	0.0%
Dalgylch Caernarfon	17.3%	38.5%	44.2%	0.0%
Bro Ffestiniog	17.8%	33.3%	46.7%	2.2%
Dalgylch Bala / Penllyn	9.4%	31.3%	56.3%	3.0%
Porthmadog / Penrhyndeudraeth	9.9%	32.5%	57.6%	0.0%
Dalgylch Pwllheli	12.0%	25.7%	62.3%	0.0%
Bro Dysynni	12.1%	25.3%	62.6%	0.0%
Bro Ardudwy	8.0%	29.1%	62.8%	0.0%
Bro Lleu / Nantlle	6.6%	27.9%	65.6%	0.0%
Dalgylch Dolgellau	8.8%	22.1%	69.1%	0.0%
Pen Llŷn	7.0%	17.3%	74.9%	0.8%
Gwynedd	10.9%	27.1%	61.6%	0.4%

I'r rhai nododd bod canlyniadau negyddol yn deillio o dwristiaeth yn eu hardal roedd cyfle iddynt nodi pa broblemau oedd yn codi ac i ba raddau roeddynt yn broblem. Materion traffig oedd y prif broblem nodwyd gyda 64.5%, gyda materion parcio yn ail agos gyda 61.2%. Gweler Ffigwr 3 isod am fwy o wybodaeth.

O ran ardaloedd penodol roedd :

- **10.8%** o'r rhai oedd yn byw o fewn ffin **Parc Cenedlaethol Eryri** yn credu bod twristiaeth yn achosi canlyniadau negyddol drwy gydol y flwyddyn;
- **8.4%** o'r rhai oedd yn byw o fewn ffin **ANHE Llŷn** yn credu bod twristiaeth yn achosi canlyniadau negyddol drwy gydol y flwyddyn;
- **18.4%** o'r rhai oedd yn byw o fewn ffin **Ardaloedd Llechi Gwynedd** yn credu bod twristiaeth yn achosi canlyniadau negyddol drwy gydol y flwyddyn

Ffigwr 3 : Canlyniadau negyddol



2.4 Agwedd at Dwristiaeth

Roedd cyfle i'r ymatebwyr gytuno neu anghytuno gyda cyfres o ddatganiadau am eu hagwedd tuag at dwristiaeth.

- 68% yn cytuno'n gryf bod rhaid parhau i hyrwyddo eu hardal i ddenu mwy o dwristiaeth
- 67.9% yn cytuno'n gryf eu bod yn ymfalchïo wrth weld ymwelwyr yn eu hardal
- 62.8% yn cytuno'n gryf eu bod yn hoffi rhoi cyngor ac awgrymiadau i ymwelwyr

Mae dau ddatganiad ble mae'r patrwm ymateb yn wahanol.


- 20.3% yn anghytuno'n gryf bod datblygiad llety cyfnod byr yn beth da i'w hardal
- 21.2% yn anghytuno'n gryf bod polisi twristiaeth Gwynedd ac Eryri yn ystyried yr effaith mae twristiaid yn gael ar fywydau pobl leol

Ffigwr 4 : Agwedd at dwristiaeth


2.5 Iaith Gymraeg


Roedd cyfle i'r ymatebwyr gytuno neu anghytuno gyda cyfres o ddatganiadau am effaith twristiaeth am yr iaith Gymraeg.

- 76.8% yn cytuno (i wahanol raddau) bod twristiaeth yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru
- 61.0% yn cytuno (i wahanol raddau) bod y Gymraeg wedi cael budd wrth i bobl leol aros i gyfleoedd gwaith yn y sector dwristiaeth
- 26.8% o'r ymatebwyr yn cytuno (i wahanol raddau) bod enwau lleoedd Cymraeg gwreiddiol wedi cael eu newid er mwyn bodloni'r ymwelwyr
- 25.2% yn cytuno (i wahanol raddau) bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio llai yn eu hardal oherwydd y nifer o ymwelwyr di-Gymraeg


Ffigwr 5 : Effaith twristiaeth ar yr iaith Gymraeg


2.6 Math o Ymwelwyr


Roedd cyfle i'r ymatebwyr nodi os oedd eisiau denu mwy, llai neu yr un faint o ymwelwyr i'w hardal. Denu mwy o ymwelwyr oedd y farn mwyaf poblogaidd ar gyfer pob categori o ymwelwyr, gyda'r uchaf yn 73.8% ar gyfer ymwelwyr rhyngwladol a'r isaf yn 51.1% ar gyfer ymwelwyr undydd.

Ffigwr 6 : Ymwelwyr o Gymru



Ffigwr 7 : Ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig (tu allan i Gymru)




Ffigwr 8 : Ymwelwyr Rhyngwladol (tu allan i'r DU)




Ffigwr 9 : Ymwelwyr Undydd



Ffigwr 10 : Ymwelwyr Dros Nos

2.7 Llety Cyfnod Byr

Rhoddwyd cyfres o ddatganiadau am lety cyfnod byr i'r ymatebwyr ac roedd modd iddynt gytuno neu anghytuno gyda hwy. Roedd 68.5% o'r ymatebwyr yn cytuno (i wahanol raddau) bod llety cyfnod byr wedi helpu i hyrwyddo eu hardal ymhellach. Roedd 63.7% yn cytuno (i wahanol raddau) bod llety cyfnod byr wedi arwain at ymwelwyr ddod drwy gydol y flwyddyn nawr yn hytrach na dim ond yn ystod y prif gyfnodau gwyliau. Roedd canran llai (27.7%) yn cytuno (i wahanol raddau) bod llety cyfnod byr wedi arwain at y dirywiad mewn ymdeimlad o gymuned.

Ffigwr 11 : Llety Cyfnod Byr



3. Digwyddiadau

Holwyd beth ydy canlyniadau cynnal digwyddiadau megis gweithgareddau awyr agored/hamdden, digwyddiadau diwylliannol a cherddorol yng nghymunedau'r ymatebwyr. Roedd 81.8% yn cytuno (i wahanol raddau) bod cynnal digwyddiadau yn eu hardal yn helpu twristiaeth dyfu a chreu buddion economaidd. Roedd hefyd 78.8% yn cytuno (i wahanol raddau) bod cynnal digwyddiadau yn creu bwrlwm yn eu cymunedau a chreu cyfle i drigolion lleol allu mwynhau y gweithgareddau hefyd.

Ar y llaw arall roedd 44.6% yn cytuno (i wahanol raddau) bod cynnal y digwyddiadau yn eu cymunedau yn achosi'r seilwaith fethu ymdopi – megis cludiant cyhoeddus, toiledau cyhoeddus a phroblemau parcio). Roedd 68.3% yn anghytuno (i wahanol raddau) bod y mathau o ymwelwyr sy'n mynychu digwyddiadau yn achosi llawer o sŵn ac yn amharchus.

Mae canlyniadau o ardal i ardal yn amrywio a gwelir y canlyniadau llawn fesul ardal yn **Atodiad E**.

Ffigwr 12: Beth yw canlyniadau cynnal digwyddiadau yn eich cymuned?



4. Safleoedd Arosfan (Aires)

Er mwyn ymateb i heriau ‘gweryslla gwyllt’ mae Cyngor Gwynedd wedi datblygu 4 safle ‘Arosfan’ (Caernarfon, Cricieth, Llanberis a Pwllheli). Pwrpas y safleoedd ‘Arosfan’ yw treialu arosiadau dros nos (uchafswm o 48 awr) mewn meysydd parcio sy’n eiddo i’r Cyngor ar gyfer cartrefi modur hunangynhwysol mewn cyrchfannau ‘trefol’ allweddol. Cafodd y safleoedd ‘Arosfan’ cyntaf eu hagor yn 2024/25. Holwyd pa fath o effaith mae'r safleoedd 'Arosfan' (Aires) wedi ei gael ar 'wersylla gwyllt' yng nghymunedau'r ymatebwyr. O'r ymatebwyr nododd 62.0% bod Arosfan yn eu cymuned nhw.

Tabl 8: Oes Arosfan yn eich cymuned?

	Nifer	Fel %
Oes	933	62.0%
Nac oes	573	38.0%
Cyfanswm	1,506	100.0%

I’r rhai oedd wedi ateb “oes” roedd cyfle iddynt nodi os oeddynt wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn y nifer sydd yn gweryslla yn wyllt ers bod yr Arosfan wedi ei sefydlu. Nid oedd dros hanner yr ymatebwyr wedi gweld unrhyw newidiadau tra bod 30.3% yn dweud bod y sefyllfa wedi gwella ac 17.9% yn dweud bod y sefyllfa wedi gwaethgu.

Tabl 9: Effaith Arosfan ar wersylla gwyllt

	Nifer	Fel %
Nid ydym wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn y nifer sydd yn gweryslla’n wyllt	470	50.4%
Mae wedi cael effaith bositif drwy gael gwell rheolaeth a lleihau nifer o gerbydau sydd yn gweryslla’n wyllt	283	30.3%
Nid ydyw wedi cael unrhyw effaith. Mae’r sefyllfa gweryslla gwyllt allan o reolaeth a mae nifer sydd yn gweryslla’n wyllt yn cynyddu	167	17.9%
Heb ateb	13	1.4%
Cyfanswm	933	100.0%

I’r rhai nad oedd Arosfan yn eu cymuned holwyd oedd gweryslla gwyllt yn broblem yn eu cymuned nhw. O’r 573 ymatebydd roedd 21.5% ohonynt yn credu bod gweryslla gwyllt yn broblem yn eu cymuned nhw. Mae gwahaniaethau i weld o fewn ardaloedd gyda 41.2% yn dalgylch Bala/Penllyn yn credu bod gweryslla gwyllt yn broblem yn eu cymunedau nhw ond dim ond 3.6% sydd yn credu hyn yn ardal Pen Llŷn.

Tabl 10: Ydi gwersylla gwylt yn broblem yn eich cymuned?

Cymunedau o fewn ardal..	Ydi	Nac ydi	Heb ateb
Dalgylch Bala / Penllyn	41.2%	58.8%	0.0%
Bro Dysynni	34.5%	65.5%	0.0%
Bro Ogwen	33.3%	66.7%	0.0%
Bro Peris	33.3%	66.7%	0.0%
Bro Ffestiniog	29.2%	70.8%	0.0%
Dalgylch Dolgellau	28.9%	68.9%	2.2%
Dalgylch Caernarfon	25.0%	75.0%	0.0%
Dalgylch Pwllheli	19.2%	80.8%	0.0%
Bro Ardudwy	18.5%	80.6%	0.9%
Ardal Porthmadog / Penrhyndeudraeth	17.9%	82.1%	0.0%
Bro Lleu / Nantlle	14.3%	85.7%	0.0%
Dalgylch Bangor	7.7%	92.3%	0.0%
Ardal Pen Llŷn	3.6%	93.7%	2.7%
Gwynedd	21.5%	77.7%	0.9%

5. Safleoedd Treftadaeth

Mae Tirwedd Llechi Gogledd Orllewin Cymru wedi ei ddynodi yn Safle Treftadaeth y Byd ers 2021. Mae'r safle yn cwmpasu chwe ardal o Wynedd, o'r chwareli i'r porthladdoedd, o'r rheilffyrdd i'r cymunedau. (Dyffryn Ogwen, Chwarel Dinorwig, Dyffryn Nantlle, Gorseddau a Bwlch y ddwy Elor, Ffestiniog/Porthmadog a Abergynolwyn/Tywyn). Holwyd os oedd safle treftadaeth yn berthnasol yw cymuned nhw iddynt ateb rhai cwestiynau am effaith y safle treftadaeth.

Tabl 11 : Pan yn ystyried eich cymuned, ydych chi'n credu fod y Safle Treftadaeth y Byd wedi:

	Ydi	Ychydig	Nac ydi
Creu bwrlwm a balchder ychwanegol ymysg trigolion	39.8%	33.8%	26.3%
Cynyddu'r nifer sydd yn ymweld	42.0%	35.7%	22.3%
Creu heriau o ran isadeiledd	19.9%	26.4%	53.7%

I'r rhai atebodd (ydi neu ychydig) bod safle treftadaeth yn achosi heriau o ran isadeiledd, holwyd hwy pa fath o heriau oedd rhain. Bu i 486 ymatebydd ateb "ydi" neu "ychydig" ac o rhain roedd 88.1% yn credu bod heriau o ran parcio, 66.7% heriau o ran sbwriel a 26.5% o ran difrod neu fandaliaeth.

Tabl 12 : Heriau mae Safleoedd Treftadaeth y Byd yn achosi

Her	Nifer	Fel %
Parcio	428	88.1%
Sbwriel	324	66.7%
Difrod/Fandaliaeth	129	26.5%

Casgliadau

O ran casgliadau, mae'r prif ddarganfyddiadau fel a ganlyn:

- Bu i 1,506 person ymateb i'r Arolwg Trigolion. Roedd hyn yn gynnydd o 104% o'r 740 atebodd yr arolwg yn 2023.
- Roedd yr ymatebwyr yn dod ar draws Gwynedd gyda'r % uchaf o ymatebwyr yn dod o ardal Pen Llŷn.
- Roedd 80.3% o'r ymatebwyr yn credu eu bod yn byw mewn ardal ble roedd twristiaid yn ymweld â hi yn aml.
- Roedd 62.5% o'r ymatebwyr wedi bod yn byw yn eu cymuned ers dros 15 mlynedd.
- Roedd 74.3% o'r ymatebwyr yn credu bod mwy o ganlyniadau cadarnhaol na chanlyniadau negyddol o ganlyniad i dwristiaeth yn eu cymuned. Roedd gostyngiad bach o 2% ers 2023.
- Wedi dweud hynny roedd llai yn credu bod mwy o ganlyniadau negyddol na chanlyniadau cadarnhaol hefyd. 12.7% o'i gymharu a 13.4% yn 2023.
- Roedd mwy yn credu bod yr un faint o ganlyniadau cadarnhaol a negyddol nac yn 2023. 12.1% o'i gymharu â 10.8% yn 2023.
- O ran dylanwad twristiaeth roedd 85.6% o'r ymatebwyr yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad cadarnhaol ar yr economi leol. Yn cyd-fynd a hynny roedd 82.7% yn credu bod twristiaeth yn cael dylanwad gadarnhaol ar gyflogaeth yn eu cymunedau.
- Roedd 38.0% o'r ymatebwyr yn credu bod twristiaeth yn achosi canlyniadau negyddol yn eu cymunedau. 10.9% ohonynt yn credu bod canlyniadau negyddol trwy gydol y flwyddyn a 27.1% ar adegau penodol o'r flwyddyn yn unig.
- Materion traffig oedd y prif ganlyniad negyddol yn ôl yr ymatebwyr gyda 64.5% wedi nodi hynny. Roedd 61.2% yn credu bod parcio yn broblem yn eu cymunedau. Roedd 60.0% yn credu bod twristiaeth yn achosi colli tai sydd ar gael mewn cymunedau er budd llety â osodir am gyfnodau byr.
- Roedd 68.0% o'r ymatebwyr yn cytuno'n gryf bod angen parhau i hyrwyddo eu hardal i ddenu ymwelwyr ar draws y flwyddyn. Nododd 67.9% o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno'n gryf eu bod yn ymfalchïo wrth weld ymwelwyr yn ymweld â'u hardal.
- O ran yr effaith twristiaeth ar yr iaith Gymraeg roedd 44.9% yn cytuno'n gryf bod twristiaeth yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. Roedd 14.1% yn cytuno'n gryf

bod twristiaeth wedi golygu bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n llai yn eu hardal oherwydd nifer yr ymwelwyr di-Gymraeg.

- O ran y math o ymwelydd roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen mwy o pob math o ymwelwyr. Roedd 73.8% isio gweld mwy o ymwelwyr rhyngwladol, 67.3% ymwelwyr o Gymru a 57.3% ymwelwyr o'r DU (tu allan i Gymru).
- O ran ymwelwyr dros nos roedd 60.9% yn credu bod angen denu mwy, a'r ganran ar gyfer ymwelwyr undydd oedd 51.1%.
- Roedd 31.3% yn cytuno'n gryf bod llety â osodir am gyfnod byr wedi helpu i hyrwyddo eu hardal ymhellach. Roedd 25.4% yn cytuno'n gryf bod prisiau tai wedi codi oherwydd y cynnydd yn y nifer llety cyfnod byr, gyda 17.1% yn anghytuno'n gryf gyda hyn.
- Roedd 51.7% yn cytuno'n gryf bod cynnal digwyddiadau yn eu hardal wedi helpu twristiaeth dyfu a dod a buddion economaidd yn eu sgil. Roedd 43.8% hefyd yn cytuno'n gryf bod wedi creu bwrlwm a chyfle i drigolion lleol fwynhau gweithgareddau a pherfformiadau cerddorol ac artistig.
- 9.4% oedd yn cytuno'n gryf bod y math o ymwelwyr sydd yn mynychu digwyddiadau yn achosi llawer o sŵn ac yn ymddwyn yn amharchus.
- O'r ymatebwyr oedd gyda Arosfan yn eu cymuned nid oedd 50.4% wedi sylwi ar unrhyw newidiadau yn y nifer sydd yn gwersylla'n wyllt ers yr Arosfan gael ei sefydlu. Roedd 30.3% yn credu bod effaith positif a 17.9% yn credu bod y sefyllfa wedi gwaethygu.
- O'r ymatebwyr nad oedd Arosfan yn eu cymuned roedd 21.5% yn credu bod gwersylla gwyllt yn broblem yn eu cymuned nhw.
- Roedd 73.6% yn credu bod Safle Treftadaeth y Byd wedi creu / creu ychydig o fwrlwm a balchder ymysg trigolion, a 77.7% yn credu ei fod wedi cynyddu / cynyddu ychydig y nifer sydd yn ymweld.
- Roedd 46.3% yn credu bod Safle Treftadaeth wedi creu / creu ychydig o heriau o ran isadeiledd yn eu cymuned. Roedd 88.1% yn credu bod parcio yn her, 66.7% yn credu bod sbwriel yn her a 26.5% yn credu bod difrod/fandaliaeth yn her.

Atodiad A – Holiadur Trigolion

Mae Cyngor Gwynedd yn dymuno deall barn cymunedau lleol yng Ngwynedd am dwristiaeth. Mae'n bwysig i ni gael clywed eich barn chi.

Mae arolwg 2024 yn dilyn yr ymchwil a gynhaliwyd gan Croeso Cymru yn 2023 i geisio barn trigolion ar dwristiaeth. Mae'r arolwg yn cael ei reoli'n gyfan gwbl gan Gyngor Gwynedd a'i ariannu gan Gronfa Ffyniant Gyffredin y DU.

Fe hoffem ddysgu mwy am yr effaith y mae twristiaeth yn ei gael ar eich cymunedau a beth yw'r manteision a'r anffanteision sy'n deillio ohono. Bydd y canfyddiadau'n cael eu defnyddio i oleuo polisi twristiaeth yn y dyfodol, er mwyn ymateb yn y ffordd orau i anghenion lleol yr holl gymunedau cysylltiedig.

Mae eich cyfranogiad yn gwbl wirfoddol, ac mae rhwydd hynt i chi dynnu'n ôl o'r arolwg ar unrhyw adeg. Bydd y wybodaeth a roddwch wrth gwblhau'r holiadur hwn yn cael ei drin yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth diogelu data.

1. Ydych chi'n byw yng Ngwynedd? *

Dewiswch **dim ond un** o'r canlynol:

- Ydw, fel trigolyn llawn amser*
- Ydw, fel perchennog ail gartref
- Nac ydw

** dim ond barn trigolion sydd yn preswyllo yn y sir trwy'r flwyddyn rydym am i'w ganfod.*

2. Ym mha bentref/tref/dinas ydych chi'n byw?

3. Beth ydy eich cod post?

4. Yn gyffredinol, fydddech chi'n dweud bod twristiaeth yn eich cymuned chi'n achosi...

- Mwy o ganlyniadau cadarnhaol na chanlyniadau negyddol
- Mwy o ganlyniadau negyddol na chanlyniadau cadarnhaol
- Yr un faint o ganlyniadau cadarnhaol a negyddol
- Dim barn

5. Ar gyfer pob un o'r agweddau canlynol, fydddech chi'n dweud bod twristiaeth yn cael dylanwad cadarnhaol ynteu negyddol yn eich cymuned chi?

	Dylanwad cadarnhaol	Niwtral	Dylanwad negyddol	Dim barn
Yr edrychiad a'r ymdeimlad ar y cyfan				
Y sector treftadaeth				
Yr economi leol				
Cyflogaeth				
Ansawdd bywyd				
Yr amgylchedd a natur				
Glendid mannau cyhoeddus				
Gweithgareddau hamdden				
Y Gymraeg a diwylliant Cymreig				
Bywiogrwydd y gymuned				
Y seilwaith (megis cludiant cyhoeddus, toiledau cyhoeddus, parcio)				

6. Yn eich barn chi, ydy twristiaeth yn achosi canlyniadau negyddol yn eich cymuned chi?

- Ydy, trwy gydol y flwyddyn gyfan neu am y rhan fwyaf o'r flwyddyn
- Ydy, ar adegau penodol o'r flwyddyn
- Nac ydy

7. Pa fath(au) o ganlyniad(au) negyddol â achosir gan dwristiaeth yn eich cymuned chi?

Dewiswch yr ymateb priodol ar gyfer pob eitem:

	Llawer iawn	Ychydig	Dim o gwbl
Sŵn			
Tyrfaoedd o bobl			
Materion traffig			
Problemau glendid a rheoli gwastraff			
Materion diogelwch, ymddygiad amharchus			
Cynnydd mewn costau byw			
Materion parcio			
Colli'r tai sydd ar gael mewn cymunedau er budd llety â osodir am gyfnodau byr			
Cynnydd ym mhrisiau tai			
Colli dilisrwydd eich ardal, gan wanhau ei hunaniaeth leol, ei hiaith a'r ffordd o fyw			

8. Mynegwch i ba raddau yr ydych yn cytuno neu'n anghytuno â phob un o'r datganiadau canlynol.

Dewiswch yr ymateb priodol ar gyfer pob eitem:

	Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n gryf	Dim barn
Rhaid parhau i hyrwyddo fy ardal i ddenu ymwelwyr ar draws y flwyddyn					
Rwy'n ymfalchio wrth weld ymwelwyr yn ymweld â fy ardal					
Rwy'n hoffi rhoi cyngor ac awgrymiadau i ymwelwyr					
Mae polisi twristiaeth gynaliadwy Gwynedd ac Eryri yn ystyried yr effaith y mae twristiaeth yn ei gael ar fywyd pobl leol					
Fe hoffwn i gael fy nghynnwys yn fwy mewn penderfyniadau sy'n ymwneud â thwristiaeth yn fy ardal					
Mae datblygiad llety â osodir am gyfnodau byr (megis AirBnB, Vrbo ayyb) yn dda i'm ardal					

9. Yn eich barn chi, a ddylai eich cymuned ddenu mwy, yr un faint, neu lai o'r mathau canlynol o ymwelwyr yn y dyfodol?

Dewiswch yr ymateb priodol ar gyfer pob eitem:

	Llai	Mwy	Yr un faint	Dim barn
Ymwelwyr o Gymru				
Ymwelwyr o'r Deyrnas Unedig (tu allan i Gymru)				
Ymwelwyr rhyngwladol (tu allan i'r DU)				
Ymwelwyr dros nos				
Ymwelwyr undydd				

10. Pa rai o'r canlyniadau canlynol y mae llety â osodir am gyfnodau byr wedi'u hachosi yn eich cymuned chi?

Dewiswch yr ymateb priodol ar gyfer pob eitem:

	Cytuno'n gryf	Tueddu i gytuno	Tueddu i anghytuno	Anghytuno'n gryf	Dim barn
Mae prisiau tai wedi codi yn y blynyddoedd diwethaf Mae twristiaeth wedi tyfu oherwydd mwy o lety dros nos					
Mae ymwelwyr yn dod trwy gydol y flwyddyn yn awr, yn hytrach na dim ond yn ystod y prif gyfnodau gwyliau					
Mae rhai ardaloedd wedi cael eu cymryd drosodd gan lety â osodir am gyfnodau byr ac yn awr ni all pobl leol fyw ynddynt					
Mae wedi helpu i hyrwyddo fy ardal ymhellach					
Mae'r ymdeimlad o gymuned wedi dirywio					
Rydym yn colli'r hyn sy'n gwneud ein hardal yn arbennig					
Mae fy ardal wedi dod yn fwy rhyngwladol ac amlddiwylliannol, gan gyfoethogi ei hagwedd ddiwylliannol					

